

Cyfarwyddiadau Cystadleuaeth Ddylunio:

Creu logo a hunaniaeth ar gyfer CYSYLLTU

Creu delwedd weledol ar gyfer CYSYLLTU, sef cynllun newydd sydd â'r nod o ddarparu hyfforddiant, adnoddau ac arweiniad iechyd meddwl i fyfyrwyr sydd ei angen ledled De Orllewin Cymru. Bydd y dylunydd neu'r grŵp dylunio buddugol yn derbyn gwobr o £500; bydd yr ail safle'n derbyn £250 a'r trydydd £100.

Ynglŷn â CYSYLLTU:

Mae Undeb Myfyrwyr y Drindod Dewi Sant (UMyDDS) ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe (UMPA) wedi bod yn ddigon ffodus i dderbyn swm sylweddol mewn cyllido allanol ar gyfer CYSYLLTU - cynllun newydd sydd â'r nod o ddarparu hyfforddiant, adnoddau ac arweiniad iechyd meddwl i fyfyrwyr sy'n ei angen ar draws De Orllewin Cymru.

Yn y flwyddyn gyntaf, nod y prosiect hwn yw:

1. Hyfforddi staff a myfyrwyr i ddod yn "Gysylltwyr" gan greu cymuned lesiant a all helpu myfyrwyr ledled De Cymru.
2. Cysylltu sefydliadau ar draws y rhwydwaith i dyfu'r gymuned.
3. Sefydlu cronfa i gynnal arloesedd myfyrwyr ar gyfer y prosiect hwn

Hoffem gael eich help chi i greu hunaniaeth weledol anhygoel i gynorthwyo a llunio'r prosiect hwn. Oes gennych chi ddiddordeb? Darllenwch ymlaen am y manylion allweddol.

Dyddiad Cau a'r Hyn sy'n Ofynnol:

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw 22ain Tachwedd 2019.

Yn y rownd gyntaf hon, cyflwynwch y canlynol mewn un ffeil (argymhellir .pdf) i becky.ricketts@uwtsd.ac.uk (UMyDDS) neu grace.hannaford@swansea-union.co.uk (UMPA). Oherwydd natur y prosiect, mae'r gystadleuaeth hon ar agor i fyfyrwyr yn naill ai PCyDDS neu Brifysgol Abertawe yn unig.

- Un logo dwyieithog terfynol gan gynnwys y geiriau CYSYLLTU / CONNECT.
- Dyluniad ar gyfer papur â phennawd.
- Dyluniad ar gyfer cyflwyniad PowerPoint.
- Adnoddau ychwanegol fel bathodynau, cardiau busnes, llinynnau gwddf, tagiau enw a.y.b. (Dewisol)
- Ystyriaethau cynhwysiant

Byddwn yn trefnu cyflwyno ffeiliau terfynol yn uniongyrchol gyda'r dylunydd neu'r grŵp o ddylunwyr buddugol.

Ysbrydoliaeth

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn agored i'w dehongli; rydym yn edrych ymlaen at weld beth rydych chi'n ei ddylunio. Dyma rai geiriau sy'n ymwneud â'r brand CYSYLLTU a allai eich helpu chi.

- Llesiant
- Gwydnwch
- Cymorth
- Trawsnewid
- Ffrindiau
- Ymdrechu
- Hyder
- Gwirfoddoli
- Rhwydweithio

Mae hon yn raddfa 99, a allai fod o gymorth:

Clasurol - - - -x - Modern

Hŷn - - - -x - Ieuengach

Gwrywaidd - - x - - Benywaidd

Chwareus - - x - - Soffistigedig

Darbodus -x - - - Moethus

Geometrig - x - - - Organig

Haniaethol - - - -x - Llythrennol

Os hoffech chi gael gwybodaeth ychwanegol neu adborth ar gynnydd, cysylltwch â becky.ricketts@uwtsd.ac.uk (UMyDDS) neu grace.hannaford@swansea-union.co.uk (UMPA)

Competition Design Brief:

Create a logo and identity for CONNECT

Create a visual identity for CONNECT, a new scheme that aims to deliver mental health training, resources and guidance for students that need it across South West Wales. The winning designer or design group will receive £500 prize, second and third place will receive £250 and £100 respectively.

About CONNECT:

Trinity Saint David Students' Union (TSDSU) and Swansea University Students' Union (SUSU) have been lucky enough to secure a substantial amount of external funding for CONNECT – a new scheme that aims to deliver mental health training, resources and guidance for students that need it across South West Wales.

In the first year this project aims to:

1. Train staff and students to become “Connectors” creating a wellbeing community that can help students across South Wales.
2. Connect institutions across the network to grow the community.
3. Establish a fund to support student innovation for this project

We would like your help to create an amazing visual identity to support and shape this project. Interested? Read on for the nitty gritty.

Deadline & Required Deliverables:

Deadline for submission is 22nd November 2019.

In this first round please submit the following in a single file (.pdf recommended) to becky.ricketts@uwtsd.ac.uk (TSDSU) or grace.hannaford@swansea-union.co.uk (SUSU). Due to the nature of the project, this competition is only open to students of either UWTSD or Swansea University.

- One final bilingual logo including the words CYSYLLTU / CONNECT.
- Mock-up of a letterhead.
- Mock-up of a PowerPoint presentation.
- Extra use-cases such as badges, business cards, lanyards, name tags etc. (Optional)
- Inclusivity considerations

We will organise delivery of final files directly with the winning designer or group of designers.

Inspiration

This brief is open to interpretation, we're looking forward to seeing what you come up with. Here are some words that relate to the CONNECT brand that may help you.

- Wellbeing
- Resilience
- Support
- Transition
- Friends
- Struggle
- Confidence
- Volunteering
- Network

This is a scale 99, which might help:

Classic ———x— Modern

Mature ———x— Youthful

Masculine — x — Feminine

Playful — x — Sophisticated

Economical —x—— Luxurious

Geometric —x—— Organic

Abstract ———x— Literal

If you would like additional information or progress feedback please contact becky.ricketts@uwtsd.ac.uk (TSDSU) or grace.hannaford@swansea-union.co.uk (SUSU)